# Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2022 – 2027:

# Y Diweddaraf 2025 – 2026

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**
**This document is available in English**

**Cyflwyniad**

Yn unol â cham gweithredu 3.14, adolygwyd Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027 ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2024. Gwnaethom siarad â phartïon â diddordeb drwy gyfarfodydd Fforwm y Fro a gynhaliwyd yn 2024. Gwnaethom hefyd siarad ag adrannau, timau a sefydliadau sydd â diddordeb penodol neu a enwyd fel partïon â chyfrifoldeb. Gwnaethom wahodd partïon â diddordeb a chyrff cyfrifol i gwblhau arolwg am Gynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg i roi adborth ar eu camau gweithredu: a ydynt yn hapus gyda'u camau gweithredu, a fyddent yn newid unrhyw beth, beth y byddent yn ei newid, a thystiolaeth i gefnogi newid. Rydym hefyd wedi ystyried amcanion lles y Cynllun Corfforaethol newydd wrth adolygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

<table>
<tr><td>1.1</td><td colspan="3">Nodau: Parhau i fonitro ac asesu'r galw am addysg Gymraeg drwy siarad â rhieni newydd a rhieni cyn-ysgol</td></tr>
<tr><td>Gweithgaredd</td><td>Adeiladu ar waith gan Fenter Bro Morgannwg mewn sesiynau Amser Stori i ddod ag addysg Gymraeg i sylw rhieni.</td><td>Targed erbyn 2027</td><td>Casglu ffigurau arolwg gan rieni newydd a rhieni cyn-ysgol drwy amrywiaeth o ddulliau bob blwyddyn i lywio'r broses o gynllunio ar gyfer lleoedd ysgol ac adeiladau ysgol.</td></tr>
<tr><td>Cyfrifoldeb</td><td>Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Dechrau'n Deg; Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; holl bartneriaid eraill y Fforwm y Fro.</td><td>Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol</td><td>1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld<br><br>2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Diweddariad<br><br>Cynhelir Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan yr Awdurdod Lleol bob 5 mlynedd; cwblhawyd yr asesiad diweddaraf ym mis Mehefin 2022. Mae un o'r ffynonellau data a gasglwyd o'r arolwg rhieni/gofalwyr yn rhoi syniad o faint o blant sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd a beth yw'r galw am ofynion gofal plant. Yn ychwanegol at hyn, cesglir data o ffynonellau amrywiol i gefnogi rhaglenni gofal plant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant i Gymru, y cynnig gofal plant Dechrau'n Deg a'r rhaglen gyfalaf gofal plant sy'n cefnogi datblygiad a/neu gynyddu argaeledd lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg i ysgogi'r galw.<br><br>Ym mis Chwefror 2026, roedd y Tîm Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar yn bresennol yn yr Ŵyl Gymreig yn y Bont-faen i hyrwyddo'r gwahanol wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Rydym yn dyrannu cyllid tuag at swyddog Ti a Fi peripatetig i gynnal sesiynau cyn-ysgol i blant a'u rhieni – lle mae gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo. Ym mhob digwyddiad y mae teuluoedd yn bresennol ynddynt, rydym yn hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg ac yn darparu rhagor o wybodaeth am leoliadau.</td></tr>
<tr><td>1.2</td><td colspan="3">Nodau: Datblygu a chefnogi Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi fel trothwy i addysg Gymraeg</td></tr>
<tr><td>Gweithgaredd</td><td>Parhau i asesu a monitro Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi o ran y galw presennol ac yn y dyfodol, opsiynau</td><td>Targed erbyn 2027</td><td>Cynyddu nifer y plant yng Nghylchoedd Meithrin gan 20% o ffigur 2022 erbyn 2027. Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lleoliad a materion perthnasol eraill.<br><br>Defnyddio grwpiau Cymraeg eraill fel Amser Stori i hyrwyddo Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi.<br><br>Gwneud gwaith i sicrhau bod Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi yn opsiynau deniadol i deuluoedd o bob cefndir. | | |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Mudiad Meithrin; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg; Dechrau'n Deg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Er mwyn cyrraedd y targed ar gynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg 20%, mae trafodaethau parhaus wedi bod yn cael eu cynnal i ehangu darpariaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Mae'r Tîm Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg wedi derbyn cyllid gan dîm Cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu darpariaeth Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg newydd ar dir Ysgol Pen-y-Garth ym Mhenarth. Rydym yn bwriadu cychwyn ar y gwaith adeiladu yn 2026. Bydd y ddarpariaeth gofal plant newydd yn cefnogi Dechrau'n Deg, y cynnig i blant 2 oed, Cynnig Gofal Plant Cymru a lleoedd sy'n talu ffioedd.

Yn ogystal, rydym yn gweithio ar gynlluniau i sefydlu uned gofal plant i gefnogi Ysgol Sant Baruc, gan gefnogi cynnydd o oddeutu 30 o leoedd gofal plant.

Mae gennym hefyd gynlluniau ar gyfer adeilad newydd i ddarparu ar gyfer Cylch Meithrin y Bont-Faen. Gwnaethom gais am gyllid cyfalaf gyda'r nod y bydd y gwaith yn cychwyn yn gynnar yn 2027. Bydd hyn yn darparu cefnogaeth i safle newydd Ysgol Iolo Morgannwg.

| 1.3 | Nodau: Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Monitro'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig a thargedu marchnata a chyrsiau at grwpiau sy'n llai tebygol o fynychu. | **Targed erbyn 2027** | Parhau i gynyddu nifer y cofrestriadau gan 10-20% bob blwyddyn a dechrau monitro cofrestriadau a dilyniant dysgwyr o wahanol grwpiau fel cefndiroedd LHDTC+ neu fwyafrif byd-eang. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn hyrwyddo gwersi, cyrsiau, sesiynau adolygu, gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg ledled Bro Morgannwg drwy hysbysebion, digwyddiadau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Aeth Dysgu Cymraeg y Fro drwy newid sylweddol yn ystod 2025/26. Ym mis Medi 2025, rhoddodd Cyngor Bro Morgannwg y gorau i'r contract Dysgu Cymraeg. Fe gymerodd Prifysgol Aberystwyth y fasnachfraint drosodd o fis Ionawr 2026. Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn parhau i weithredu o Ganolfan Ddysgu Palmerston yn y Barri, ond yn annibynnol ar Gyngor Bro Morgannwg. O ganlyniad i'r newid, roedd cyfyngiad ar ba gyrsiau a dosbarthiadau roedd Dysgu Cymraeg y Fro yn gallu eu cynnig yn ystod tymor yr hydref, a effeithiodd ar gyrsiau i staff y Cyngor yn ogystal ag i ddysgwyr cymunedol. Ers mis Ionawr 2026, mae Dysgu Cymraeg y Fro wedi cynnig ystod lawn o ddosbarthiadau a chyrsiau, wedi'u hategu gan Brifysgol Aberystwyth.

Ar hyn o bryd, mae 24 o ddosbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnal ledled y sir ar bob lefel. Mae'r tabl hwn yn dangos nifer y dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau ym mhob lleoliad:

| | Y Barri | Y Bontfaen | Llanilltud Fawr | Penarth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad** | 36 | 0 | 5 | 46 | **87** |
| **Sylfaen** | 27 | 8 | 19 | 10 | **64** |
| **Canolradd** | 32 | 8 | 9 | 0 | **49** |
| **Uwch** | 22 | 22 | 0 | 0 | **44** |
| **Gloywi** | 16 | 15 | 0 | 0 | **31** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cynnal o leiaf dair sesiwn 'Sadwrn Siarad' drwy gydol y flwyddyn, gyda thua 40 o bobl yn eu mynychu. Cynhelir caffis wythnosol yng Ngwenfô, y Barri, Llanilltud Fawr, Penarth, y Bont-faen, Dinas Powys, y Rhws, Ogwr a Sili gyda hyd at 25 o bobl yn eu mynychu. Gwnaethom gynnig cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i rieni mewn ysgolion yn y Fro, gan gynnwys Ysgol Gynradd Evenlode ym Mhenarth, Ysgol High Street yn y Barri, ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn Nhregolwyn.<br><br>Mae dysgwyr yn sefyll arholiadau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru ym mis Chwefror a mis Mehefin. Bydd 65 o ddysgwyr yn sefyll arholiad allanol ym mis Mehefin 2026. | | | |
| **1.4** | **Nodau: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud o lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch** | | |
| **Gweithgaredd** | Rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u targedu i annog dysgwyr i symud i lefel uwch o rugldel | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu cyfraddau dilyniant gan 20% i lefelau uwch o ffigyrau gwaelodlin 2022 |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |
| **Diweddariad**<br><br>Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cynnal cyrsiau ar bob lefel. Mae croeso i ddysgwyr sefyll arholiadau CBAC ym mis Chwefror a mis Mehefin. Bydd 65 o ddysgwyr yn sefyll arholiad allanol ym mis Mehefin 2026. Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedyn yn symud ymlaen i'r lefel nesaf, wedi'r arholiad.<br><br>O ganlyniad i'r newid, roedd cyfyngiad ar ba gyrsiau a dosbarthiadau roedd Dysgu Cymraeg y Fro yn gallu eu cynnig yn ystod tymor yr hydref, a effeithiodd ar gyrsiau i staff y Cyngor yn ogystal ag i ddysgwyr cymunedol. Ers mis Ionawr 2026, mae Dysgu Cymraeg y Fro wedi cynnig ystod lawn o ddosbarthiadau a chyrsiau, wedi'u hategu gan Brifysgol Aberystwyth. | | | |
| **1.5** | **Nodau: Cyflwyno a chefnogi gwersi Cymraeg a chyrsau e.e. Cymraeg Gwaith i wella sgiliau Cymraeg ymhlith staff y Cyngor** | | |
| **Gweithgaredd** | Hyrwyddo dysgu'r Gymraeg drwy gyfrwng cyrsiau Iaith Gwaith fel budd yn y gweithle, datblygiad proffesiynol, ac yn hanfodol i'r busnes. | **Targed erbyn 2027** | a) Cynyddu nifer y cofrestriadau ar bob lefel, yn enwedig Mynediad, gan 20% o ffigurau 2023.<br><br>b) Cynyddu cyfraddau dilyniant o Fynediad i Sylfaen, Sylfaen i<br><br>c) Ganolradd, a Chanolradd i Uwch gan 20% o ffigurau 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu a chwblhau cyrsiau Iaith Gwaith, ac i symud ymlaen i lefelau pellach.<br><br>Rhoi gwybodaeth i reolwyr i gefnogi staff mewn cyrsiau Iaith Gwaith.<br><br>Cynyddu nifer y staff sy'n dysgu'r Gymraeg gyda'r nod o gynyddu'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor.<br><br>Ystyried cyrsiau pwrpasol sy'n benodol i dimau/gwasanaethau i roi hwb i sgiliau Cymraeg. | | d) Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau cwrs ar unrhyw lefel o gyfraddau 2023.<br><br>e) Dau dîm i gwblhau cwrs Cymraeg pwrpasol bob blwyddyn |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb<br><br>4 - Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen |

**Diweddariad**

Daeth y cyllid ar gyfer ein Cydlynydd Iaith Gwaith mewnol pwrpasol i ben yn nhymor yr haf 2025. Cafodd Swyddog yr Iaith Gymraeg, y Cydlynydd Iaith Gwaith, a Dysgu Cymraeg y Fro gyfres o drafodaethau i gynllunio darpariaeth a hyrwyddo yn y dyfodol. Gwnaethom gynnal arolwg o aelodau staff i asesu diddordeb, er mwyn cynllunio adnoddau ac egni yn y ffordd orau. Roedd dros 75% o'r ymatebwyr am ddysgu ar lefel blasu neu fynediad, felly penderfynom ganolbwyntio ar y grŵp hwn. Gwnaethom gynnal cwrs blasu Cyflwyniad i'r Gymraeg deng wythnos o hyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2025. O ganlyniad i lwyddiant y cwrs hwn, cofrestrodd dros 30 aelod o staff ar gwrs Mynediad newydd a ddechreuodd ym mis Ionawr 2026. Ers mis Medi 2026, gwnaethom gyfeirio staff sy'n dymuno dysgu ar lefelau uwch yn uniongyrchol at ddarparwyr Dysgu Cymraeg ledled y wlad. Gwnaethom gynnal arolwg arall ym mis Chwefror 2026, gyda chynlluniau i ddatblygu ail gwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg ar gyfer tymor yr haf 2026.

a) Cynyddodd cofrestriadau ar gyfer y cwrs Mynediad o 19 yn 2024 i 35 erbyn mis Mawrth 2026. Cynyddodd cofrestriadau ar gyfer y cyrsiau Sylfaen o 8 yn 2023 i 14 yn 2026. Mae'r nifer sydd wedi cofrestru ar gyfer lefelau eraill wedi aros tua'r un peth â 2023, neu'n is.

b) Nid yw'r cyfraddau dilyniant yn uchel, sy'n debygol o fod oherwydd bod y cyrsiau Iaith Gwaith mewnol wedi dod i ben, a'r penderfyniad i gyfeirio staff at ddarparwyr eraill, gan y gallai hyn fod wedi achosi i rai aelodau staff ddod â'u taith dysgu Cymraeg i ben. Mae'r niferoedd ar y cwrs blasu ac yn ddiweddarach y cwrs Mynediad yn profi ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir i ganolbwyntio adnoddau ar y grŵp hwn. Mae'r gyfradd dilyniant o'r cwrs blasu i'r cwrs Mynediad yn nodedig, ond nid ydym wedi cynnal sesiynau blasu ffurfiol tebyg o'r blaen. Rydym yn gobeithio canolbwyntio ar ddysgwyr uwch a dilyniant i gyrsiau uwch yn y blynyddoedd i ddod, unwaith y bydd y dysgwyr Mynediad wedi ymgyfarwyddo.

c) Mae cyfanswm nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg yn 2026 yn llawer uwch na 2023, yn bennaf oherwydd y cwrs blasu Cyflwyniad i'r Gymraeg.

ch) Roedd gan y Gwasanaeth Ieuenctid gwrs blasu Cyflwyniad i'r Gymraeg wyneb yn wyneb pwrpasol, ac maent bellach wedi symud ymlaen i ddosbarth Mynediad pwrpasol. Mae Iaith Gwaith hefyd wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddatblygu cyrsiau pwrpasol, gan gynnwys staff cartrefi gofal. Gwnaethom hefyd gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid i drefnu cwrs Cymraeg pwrpasol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

| **1.6** | **Nodau: Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg gyda'i gilydd** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu sesiynau amser stori yn Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd. Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu'r iaith. | **Targed erbyn 2027** | Sefydlu sesiynau amser stori ym mhob un o'r prif drefi a'u cynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth prif ffrwd. Trefnu cyrsiau iaith teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**




Elfen allweddol o raglen ymgysylltu Menter Bro Morgannwg gyda theuluoedd cyn-ysgol yw'r sesiynau Amser Stori/Story Time mewn llyfrgelloedd mewn pedair tref ar draws y sir Cynhaliwyd sesiynau Amser Stori arbennig dros y Nadolig yn Ngerddi Dyffryn. Mynychodd dros 3,000 o blant ac oedolion dros y flwyddyn. Mae'r sesiynau hyn yn ddefnyddiol i rieni sy'n dysgu Cymraeg yn ogystal â siaradwyr rhugl sydd am roi profiadau cadarnhaol i'w plant.

Mae tri grŵp Ti a Fi yn cael eu cynnal ar draws Bro Morgannwg mewn cydweithrediad â'r Mudiad Meithrin.

<table>
<tr><th>1.7</th><th colspan="3">Nodau: Parhau i ddatblygu ac integreiddio’r strategaeth Mwy Na Geiriau ar draws y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol</th></tr>
<tr><td>Gweithgaredd</td><td>Parhau i ddiweddaru’r cynllun gweithredu Mwy Na Geiriau a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i weithio tuag at y camau gweithredu, bod blaenoriaethau’n cael eu gosod, a bod amcanion yn cael eu cyflawni. Gweithio ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i wreiddio'r Cynnig Iaith, cynyddu gallu Cymraeg staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, a hyrwyddo Safonau'r Gymraeg.</td><td>Targed erbyn 2027</td><td>Mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cyrchu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mwy o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.<br>(adroddir ar y ddau darged hyn yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)<br><br>Mwy o ddefnydd o wasanaethau cyfieithu.</td></tr>
<tr><td>Cyfrifoldeb</td><td>Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Ysgolion Cymraeg</td><td>Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol</td><td>2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb</td></tr>
<tr><td colspan="4">Diweddariad<br><br>Cyfarfu swyddogion o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarterol â Swyddog yr Iaith Gymraeg a chydweithwyr o Adnoddau Dynol, a Dysgu a Datblygu Sefydliadol i adolygu a diweddaru fframwaith a chynllun gweithredu Mwy Na Geiriau. Ynghyd â'r gwaith o amgylch hyrwyddo cyrsiau iaith Gymraeg a chyfleoedd dysgu, mae camau gweithredu penodol eraill yn ystod 2025/26 yn cynnwys:<br><br>• Gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol fel dangosydd perfformiad allweddol yng Nghynllun y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2025-26, sy'n atgyfnerthu ei safle strategol.<br>• Gweithredu Polisi Dehongli a Chyfieithu Bro Morgannwg, gan nodi ein dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg.<br>• Rheolwr Gweithredol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n mynychu'r cwrs Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog, fel yr argymhellir gan fframwaith Mwy na Geiriau.<br>• Mae cylchlythyr Shwmae Pawb yn un o’r camau gweithredu allweddol yn ffrwd waith Mwy na Geiriau. Mae’n cael ei anfon at holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy amrywiaeth o gynnwys.</td></tr>
</table>

| 1.9 | Nodau: Cyflawni ymgyrch i hyrwyddo dwyieithrwydd yn y cartref ac addysg Gymraeg | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog yn y cartref a chynnydd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, gan gynnwys cynnydd yn y cyfraddau dilyniant rhwng cyfnodau addysg.<br><br>Cyflwyno gwefan neu adnodd i ddarparu brandio ar gyfer ysgolion Cymraeg, i hyrwyddo brandio addysg ac ysgolion Cymraeg ac ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg. Defnyddio adnoddau Cymraeg i Bawb. | **Targed erbyn 2027** | Lansio'r wefan/adnodd a defnyddio hyn i dargedu teuluoedd sy'n dewis rhwng addysg Gymraeg a Saesneg. Monitro i nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg ac sy'n symud ymlaen i gyfnodau pellach. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; yr Urdd; Swyddog y Gymraeg Cyngor Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb<br><br>4 - Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen |

**Diweddariad**

Cynhaliodd Dysgu a Sgiliau amryw o weithgareddau hyrwyddo i gynyddu proffil addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg drwy gydol 2025-26. Digwyddiad allweddol oedd Gŵyl Gymreig y Bont-faen a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026 i gynyddu proffil addysg cyfrwng Cymraeg yng ngorllewin y Fro. Cefnogwyd y digwyddiad gan Kier Construction fel rhan o'u gwaith o adeiladu Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg newydd, y mae disgwyl iddi agor yn 2027. Bu corau o Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg yn canu yn y digwyddiad. Cynhaliwyd gweithgareddau cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar yn ystod y dydd gyda chefnogaeth partneriaid y Gymraeg. Rhannodd Dysgu a Sgiliau wybodaeth am gyfleoedd yn y fro ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth Drochi.

| |
|---|
| Mae’r Swyddog Addysg Gymraeg yn aelod o fwrdd llywio Cymraeg i Bawb, sefydliad sy'n cefnogi’r gwaith o hyrwyddo a datblygu’r iaith Gymraeg ac addysg Gymraeg. Ariannodd Cymraeg i Bawb brosiect i lunio pecyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion a fydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2026. Rydym wedi bod yn cymryd rhan wrth rannu'r pecyn ag ysgolion a chasglu adborth.<br><br>Cafodd y Swyddog Addysg Gymraeg a Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor gyllid i lunio adnoddau gan gynnwys gwefan annibynnol sy'n bwrpasol ar gyfer hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd ym Mro Morgannwg. Roedd oedi gyda lansio'r wefan bwrpasol, fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd y wefan yn mynd yn fyw yn haf 2026. |


**Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

| **2.1** | **Nodau: Parhau i gynnig mwy o gyrsiau iaith ar amryw lefelau hyfedredd i alluogi mwy o weithwyr i weithio’n ddwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg petrus i roi hwb i hyder gan gynnwys cyrsiau rhithwir drwy ymgyrchoedd hyrwyddo a gweithgareddau rheoli fel sesiynau briffio tîm, amcanion #AmdanaFi, datblygiad personol a phroffesiynol.<br>Gwelwch Gam Gweithredu 1.5 hefyd. | **Targed erbyn 2027** | Cynnydd yn nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg petrus sy'n manteisio ar gyfleoedd i roi hwb i hyder, a ddangosir gan welliant mewn sgiliau Cymraeg datganedig a nifer y staff sydd â hyder i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn y gweithle.<br>Gwelwch y targedau yng Ngham Gweithredu 1.5 hefyd. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro/ Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y** | 2 - Parchu a dathlu'r amgylchedd |
| | Cynigiwyd cyrsiau Cymraeg Gwaith ar bob lefel o Fynediad/Mynediad i Gloywi/Hyfedredd. Dechreuodd y rhan fwyaf o'r cyrsiau ym mis Medi 2024, ond dechreuodd rhai ym Mynediad/Mynediad a Sylfaen/Foundation ym mis Ionawr 2025. | | |
| **Diweddariad**<br><br>Gwnaethom gynnal arolwg o aelodau staff yn haf 2025 i asesu diddordeb mewn cyrsiau Cymraeg ac i gynllunio adnoddau. Roedd dros 75% o'r ymatebwyr am ddysgu ar lefel blasu neu fynediad, felly penderfynom ganolbwyntio ar y grŵp hwn. Gwnaethom gynnal cwrs blasu Cyflwyniad i'r Gymraeg deng wythnos o hyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2025. Rydym hefyd wedi cynnal cyrsiau blasu rhagarweiniol pwrpasol. O ganlyniad i lwyddiant y cwrs hwn, cofrestrodd dros 30 | | | |

aelod o staff ar gwrs Mynediad newydd a ddechreuodd ym mis Ionawr 2026. Gwnaethom gynnal arolwg arall ym mis Chwefror 2026, gyda chynlluniau i ddatblygu ail gwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg ar gyfer tymor yr haf 2026.

Gwnaethom hyrwyddo cyrsiau Cymraeg Gwaith, cyrsiau byr ar-lein, a'r cwrs Ymwybyddiaeth Cymraeg ar yr Hyb, ar Staffnet, trwy'r cylchlythyr Crychdon, a thrwy e-byst ac erthyglau. Yn ogystal, roedd cylchlythyr Shwmae Pawb a gynhyrchwyd ar gyfer staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo cyrsiau Cymraeg, cyrsiau ar-lein, a'r cwrs Ymwybyddiaeth Gymraeg. Mae staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi gweithio i ddatblygu cynllun gweithredu Mwy Na Geiriau, sy'n cynnwys cyfeiriad mwy penodol at ddysgu'r Gymraeg mewn adolygiadau perfformiad. Gwnaethom hefyd lansio sianel Teams yn 2026.

Cwblhaodd mwy o staff yr Asesiad Sgiliau Cymraeg yn 2025/26, ac mae cynnydd canrannol wedi bod yn nifer y staff sy'n datgan sgiliau 'da' neu 'rhugl'.




| **2.2** | **Nodau: Cynnig cyfleoedd anffurfiol a ffurfiol i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg gwrdd ac ymarfer eu sgiliau iaith a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol a gweithgareddau** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu gweithgareddau cymdeithasol a ‘sesiynau sgwrs’ i wella hyder a lefelau rhuglder.<br><br>Cynllunio rhaglen gweithgareddau cymdeithasol amrywiol i ddod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd. | **Targed erbyn 2027** | Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau a rhoi cymorth marchnata. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Monitro ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig i dargedu darpariaeth at grwpiau sy'n llai tebygol o fynychu. | | |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Mae digwyddiadau a chyfleoedd yn cael eu cynnal gan sefydliadau gan gynnwys Menter Bro Morgannwg a Dysgu Cymraeg y Fro. Mae gan y ddau sefydliad galendr o ddigwyddiadau ar eu gwefannau ac maent yn hyrwyddo manylion yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae cylchlythyrau gyda manylion digwyddiadau sydd ar ddod yn yr ardaloedd lleol a chyfagos yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â dysgwyr. Rydym yn rhannu'r cylchlythyr hwn ar Staffnet.

Dysgu Cymraeg y Fro
Mae Dysgu Cymraeg y Fro wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer siaradwyr Cymraeg, teuluoedd a dysgwyr ym Mro Morgannwg. Cynhelir y rhain drwy gydol y flwyddyn i nodi Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, y Pasg, y Nadolig, a'r haf. Cynhelir rhai digwyddiadau ar-lein drwy Zoom, ac mae rhai yn bersonol yng Nghanolfan Palmerston yn y Barri neu mewn lleoliadau eraill yn y Fro.

Cynhelir sesiynau gweithgareddau dydd Gwener mewn lleoliadau ledled y Fro bob yn ail fis a'r nod yw cael dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae croeso hefyd i ddysgwyr a siaradwyr fynychu Caffi Cymraeg, boreau coffi rheolaidd ledled y Fro, yn ogystal â Sgwrs Dros Fwyd bob tymor lle mae dysgwyr mwy datblygedig yn cyfarfod dros bryd gyda'r nos i gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol.

Cynhelir sesiynau rheolaidd Ysgol Sadwrn/Sadwrn Siarad a sesiynau Defnyddio'ch Cymraeg/Gweithgareddau Gwener mewn lleoliadau ar draws y sir sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ar bob lefel a siaradwyr Cymraeg eraill ddod at ei gilydd i siarad Cymraeg, cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddefnyddio'r Gymraeg, a siarad â thiwtoriaid.



















Menter Bro Morgannwg


Mae'r Fenter wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o ddosbarthiadau a gweithgareddau i oedolion ym Mro Morgannwg, rhai gyda grwpiau arall yn gynnwys Menter Caerdydd, Learn Welsh the Vale and Learn Welsh Cardiff. These include visits and excursions, Cerdded a Chlonc walk and talks, online classes, coffee mornings, wellbeing sessions, and monthly talks (Sgwrs y Mis). Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a gwibdeithiau, teithiau cerdded a sgyrsiau Cerdded a Chlonc, dosbarthiadau ar-lein, boreau coffi, sesiynau lles, a sgyrsiau misol (Sgwrs y Mis). Lansiwyd cwis misol newydd i ddysgwyr yn 2025, mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro.















| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.3** | **Nodau: Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn addysg Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol** | | |
| **Gweithgaredd** | Trefnu gweithgareddau neu ddigwyddiadau yn ystod amser ysgol neu ar ôl yr ysgol i blant a phobl ifanc mewn addysg Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau ac ar achlysuron y tu allan i ddosbarthiadau Cymraeg. | **Targed erbyn 2027** | Mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc sydd mewn ysgolion Saesneg mewn gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog.<br><br>Parhau i gyflawni a chyrraedd gwobrau Siarter Iaith. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Trwy bartneriaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ag Urdd Gobaith Cymru, mae pobl ifanc o bedair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg Bro Morgannwg wedi parhau i gael cyfle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg y tu allan i sesiynau wedi'u haddysgu. Mae hyn wedi cynnwys clybiau cinio rheolaidd (naill ai bob wythnos neu bob pythefnos), ynghyd â gweithgareddau cymdeithasol oddi ar y safle a chyfnodau preswyl i ddysgwyr Cymraeg ail iaith. Mae'r rhain yn cael eu hwyluso mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ac mewn darpariaethau fel canolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd.

Drwy gydol y flwyddyn, mae clybiau wedi eu cyflwyno yn ysgolion y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Pencoedtre a Sant Cyres, gyda gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau hanner tymor yr haf a mis Chwefror. Yn chwarter 4 yn unig, mae 50 o bobl ifanc unigol wedi cael mynediad at sesiynau i ddatblygu'r sgiliau hyn yn yr ysgolion hyn.

Croesewir plant o gefndiroedd Saesneg mewn sesiynau Amser Stori, grwpiau Ti a Fi, a chynlluniau Bwrlwm y Fenter.

Perfformiodd un ysgol cyfrwng Saesneg yng Ngŵyl Fach y Fro ym mis Mai 2025, ynghyd â saith ysgol cyfrwng Cymraeg.


| 2.4 | **Nodau: Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Llunio calendr neu raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir ar draws y Fro.<br><br>Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden i ddarparu ar gyfer amryw ddiddordebau fel chwaraeon, drama, dawns, celf a chrefft, gemau cyfrifiadur, ac ati. | **Targed erbyn 2027** | Calendr / rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'w chymeradwyo a'i rhannu gan bob partner yn Fforwm y Fro a'i chyhoeddi gan Gyngor Bro Morgannwg |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaeth Ieuenctid y Fro / Gwasanaethau Hamdden) mewn partneriaeth â: Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc; Menter Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Gwasanaeth Ieuenctid

Gall pobl ifanc ymgysylltu â chynnig Urdd Gobaith Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau a darpariaethau y tu allan i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys Fforwm Ieuenctid Caerdydd a'r Fro, rhaglen gyfnewid ieuenctid ryngwladol i Gatalwnia, a hyfforddiant gyda'r Urdd i ddod yn wirfoddolwyr. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc archwilio'r iaith a'r diwylliant Cymraeg y tu allan i'r ysgol, meithrin perthnasoedd rhyngwladol, a'r gallu i roi yn ôl i'w cymunedau. Mae gwirfoddolwyr gyda'r Urdd yn cefnogi darpariaethau ehangach, megis chwaraeon, y clwb ieuenctid Cymraeg a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Menter Bro Morgannwg







Sefydlodd Menter Bro Morgannwg ddosbarth dawns newydd ac amrywiaeth o sesiynau gwyddoniaeth SparkLab i blant, yn ogystal â gweithdai Lego. Cynhaliwyd Parti Plant ar Bier Penarth yn yr haf, a digwyddiadau teuluol eraill yn ystod y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd cyfres o weithdai celf yn y cyfnod cyn Gŵyl Fach y Fro ym mis Mai 2025, gan arwain at faneri a baneri mawr a oedd yn cynnwys y gwaith celf. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn ymwneud â gweithdai radio a phodlediadau.










Cynhaliwyd gigs ieuenctid yn Ysgol Bro Morgannwg a'r Memo i bobl ifanc.

Cydweithiodd Mentrau Iaith Ranbarthol i hyrwyddo cyfres o gigs ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd fel rhan o ŵyl gerddoriaeth Gymraeg Tafwyl. Arweiniodd pobl ifanc ddigwyddiad y Fari Lwyd yn y Bont-faen.

Darparodd Gŵyl Fach y Fro gyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i ddisgyblion Blwyddyn 12/13 Ysgol Bro Morgannwg, yn ogystal â llwyfan i berfformwyr ieuenctid. Perfformiodd Ysgol Bro Morgannwg, ynghyd â thros 100 o blant o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gyfres o ganeuon o Les Misérables. Rhoddodd hyn gyfle i blant a phobl ifanc ledled y sir weithio a pherfformio gyda'i gilydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.5** | **Nodau: Annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc mewn addysg Gymraeg (h.y. yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg) ar-lein ac yn y gymuned** | | |
| **Gweithgaredd** | Gweithio cydweithredol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid, yr Urdd, Menter Bro Morgannwg ac Ysgol Bro Morgannwg i | **Targed erbyn 2027** | Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn yr ysgol ac yn y gymuned.<br><br>Sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn cael eu rhannu gyda dysgwyr a theuluoedd Ysgol Bro Morgannwg. | | Cynnig amrywiaeth o wahanol weithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc yn ystod amser ysgol a'r tu allan iddi. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |

**Diweddariad**

Coleg Caerdydd a'r Fro
Mae'r coleg yn cynnig lle amgen ar gyfer dysgu ac addysg bellach i siaradwyr Cymraeg ifanc ym Mro Morgannwg. Mae'r coleg yn cynnig nifer o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys chwaraeon, iechyd a harddwch, a chynorthwywyr addysgu. Mae'r coleg wedi denu myfyrwyr Cymraeg drwy'r Urdd a diwrnodau sgiliau gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Gall dysgwyr gwblhau modiwlau yn y Gymraeg fel rhan o'r rhan fwyaf o gyrsiau ac mae cwrs e-ddysgu gorfodol hefyd ar Ddwyieithrwydd yn y Gweithle. Cyflwynwyd cynllun gwobrwyo digidol hefyd, lle gall dysgwyr ennill bathodynnau drwy gwblhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg. Mae gan y coleg hefyd hyrwyddwyr Cymraeg, llysgenhadon Cymraeg, dysgu Cymraeg i staff, amrywiaeth o ffyrdd o ddefnyddio a siarad Cymraeg i ddysgwyr a staff, a chyfleoedd dwyieithog allanol.

Ysgol Bro Morgannwg
Mae'r ysgol yn parhau i gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol o gerddoriaeth a drama i chwaraeon a thechnoleg. Bu nifer o unigolion a grwpiau yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn 2024. Mae Ysgol Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda'r Urdd a Menter Bro Morgannwg i gynnal gweithgareddau a chlybiau.

Menter Bro Morgannwg
Cynhaliwyd gigs ieuenctid yn Ysgol Bro Morgannwg a'r Memo i bobl ifanc. Cydweithiodd Mentrau Iaith Ranbarthol i hyrwyddo cyfres o gigs ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd fel rhan o ŵyl gerddoriaeth Gymraeg Tafwyl. Arweiniodd pobl ifanc ddigwyddiad y Fari Lwyd yn y Bont-faen.

Darparodd Gŵyl Fach y Fro gyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i ddisgyblion Blwyddyn 12/13 Ysgol Bro Morgannwg, yn ogystal â llwyfan i berfformwyr ieuenctid.

| |
|---|
| Gwasanaeth Ieuenctid<br>Mae cyfleoedd amrywiol drwy gydol y flwyddyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ysgol. Mae Urdd Gobaith Cymru yn ymgysylltu â chymuned yr ysgol a Phwyllgor Cymraeg yr ysgolion i gefnogi'r gwaith o drefnu digwyddiadau diwylliannol Cymreig sy'n gysylltiedig â diwrnodau fel Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Santes Dwynwen. Anogwyd pobl ifanc hefyd i fynychu digwyddiadau cymunedol, fel Gŵyl Fach y Fro, lle roedd aelodau o staff a gwirfoddolwyr yn bresennol.<br><br>Mae Urdd Gobaith Cymru yn cefnogi digwyddiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys Diwrnod Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg a'r digwyddiad chwaraeon *It's a Knockout* y Gwasanaeth Ieuenctid. |

| **2.6** | **Nodau: Cefnogi clybiau ieuenctid a darpariaeth ieuenctid Gymraeg i gynnwys darpariaeth ddwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cefnogi clybiau presennol i ddod yn ddwyieithog ac ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth ieuenctid ddwyieithog neu Gymraeg debyg mewn mannau eraill naill ai ym Mhenarth neu Lanilltud Fawr gyda chefnogaeth gan yr Urdd a Menter Bro Morgannwg.<br><br>Monitro presenoldeb mewn clybiau presennol ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig i dargedu darpariaeth at grwpiau sy'n llai tebygol o fynychu. | **Targed erbyn 2027** | Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys naill ai Penarth neu orllewin y Fro a mwy o bresenoldeb gan bobl ifanc sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig a chefndiroedd. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: yr Urdd; Menter Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb |
| **Diweddariad** | | | |

| |
|---|
| O fewn ei phartneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid, mae Urdd Gobaith Cymru wedi parhau i ddarparu darpariaeth ieuenctid Gymraeg wythnosol yn ardal y Barri. Rydym wedi dechrau datblygu cynlluniau ar gyfer darpariaeth yn Llanilltud Fawr ac ym Mhenarth. Rydym wedi dechrau gwaith ymgysylltu a gweithgareddau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n gadael blwyddyn 6 i ddechrau cynyddu'r niferoedd yn yr ardaloedd hyn.<br><br>Mae Urdd Gobaith Cymru wedi parhau i gefnogi digwyddiadau a darpariaethau mynediad agored Gwasanaeth Ieuenctid y Fro er mwyn gallu helpu i ymgorffori ymagwedd fwy dwyieithog at y ddarpariaeth hon. O hyn, gall staff y Gwasanaeth Ieuenctid brofi sesiynau sy'n cael eu cynnal yn ddwyieithog ac sy'n datblygu ffyrdd o gynnwys y Gymraeg mewn darpariaethau.<br><br>Mae Urdd Gobaith Cymru bellach yn cofnodi eu data ar system gwybodaeth reoli (SGR) y Gwasanaeth Ieuenctid, gan sicrhau monitro mwy cadarn ar ddata cydraddoldeb o fis Ionawr ymlaen. Ar draws darpariaethau y Barri a Llanilltud yn chwarter 4, mynychodd cyfanswm o 26 o unigolion hysbys y ddarpariaeth. Gyda'r data sydd ar gael hyd yma, nid yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn ennyn diddordeb pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei fonitro trwy'r flwyddyn newydd, gan fanteisio ar allu gwell y SGR. |

| **2.7** | **Nodau: Cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n darparu ar gyfer diddordebau teuluoedd** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu a chefnogi digwyddiadau teuluol ar y cyd i gyd-fynd â'r Nadolig, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, y Pasg a'r Haf.<br><br>Monitro presenoldeb ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig i sicrhau cynhwysiant ac i dargedu darpariaeth at grwpiau sy'n llai tebygol o fynychu. | **Targed erbyn 2027** | Gan weithio o fewn y cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg, hwyluso diwrnodau hwyl i'r teulu rheolaidd yn ystod y flwyddyn mewn gwahanol rannau o'r sir. Mwy o amrywiaeth o fynychwyr. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; yr Urdd; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Dechrau'n Deg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld<br><br>3 - Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb<br><br>4 - Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen |

| Diweddariad | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Fenter yn cynnal amrywiaeth o ddosbarthiadau a gweithgareddau ar gyfer babanod, plant, teuluoedd a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys ioga beichiogrwydd, ffit bygi, dosbarthiadau synhwyraidd babanod, sesiynau amser stori mewn llyfrgelloedd lleol. Mae’r Fenter wedi adrodd eu bod wedi cynnal dros 50 o ddigwyddiadau a gweithgareddau i deuluoedd yn 2025/26, a fynychwyd gan 780 o blant a 700 o oedolion.<br><br>Mae'r Fenter hefyd yn cynnal darpariaeth gwyliau Bwrlwm, sesiynau chwarae Cymraeg rhad ac am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol mewn lleoliadau ar draws y sir. Mae'r rhain yn cynnwys celf, crefftau, gemau a chwaraeon mewn cysylltiad â thîm chwaraeon a hamdden yr Urdd a Chyngor Bro Morgannwg. Mynychodd dros 300 o blant sesiwn Bwrlwm yn 2025/26.<br><br>Mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro, cynhaliwyd pedwar digwyddiad a pharti i deuluoedd yn ystod 2025/26.<br>• Parti Pasg – Canolfan Palmerston<br>• Gŵyl Dewi Sant – Gerddi Dyffryn<br>• Parti Nadolig – Canolfan Palmerston<br>• Parti Plant yr Haf – Pier Pafiliwn Penarth | | | |
| **2.8** | **Nodau: Datblygu'r celfyddydau a’r sîn gerddoriaeth Gymraeg** | | |
| **Gweithgaredd** | Parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth gerddoriaeth a chelfyddydau Gymraeg mewn gwahanol leoliadau ar draws y Fro.<br><br>Parhau i gynnal ac adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Fach y Fro.<br><br>Monitro presenoldeb ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig i dargedu darpariaeth at grwpiau sy'n llai tebygol o fynychu. | **Targed erbyn 2027** | Cynnal nifer reolaidd o ddigwyddiadau y flwyddyn i oedolion a phobl ifanc yn y Fro a sicrhau bod o leiaf 60 o bobl yn mynychu pob digwyddiad a pharhau i ddenu dros 5,000 o bobl i Ŵyl Fach y Fro. Mwy o amrywiaeth o fynychwyr. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y | **Cysylltiad ag** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fro) mewn partneriaeth â’r Urdd; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg; holl Bartneriaid y Fforwm y Fro | **amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | |

**Diweddariad**

Daeth dros 9,000 o bobl i Ŵyl Fach y Fro ym mis Mai 2025 i wylio setiau byw o rai o artistiaid amlycaf Cymru, yn ogystal â thros 15 o berfformiadau gan ysgolion lleol a chorau cymunedol, gan gynnwys un ysgol cyfrwng Saesneg. Mae'r ŵyl yn parhau i dyfu ac atgyfnerthu ei safle yng nghalendr yr iaith Gymraeg yn Ne Cymru, gan gynyddu mewn poblogrwydd bob blwyddyn.








Trefnodd Menter Bro Morgannwg gyfres o gigs Cymraeg a ddenodd gynulleidfaoedd brwdfrydig ac a roddodd gyfleoedd gwerthfawr i artistiaid newydd berfformio ynddynt:

- Yn y Barri, perfformiodd Mei Gwynedd ac Alis Glyn, gan greu nosweithiau bywiog o gerddoriaeth fyw.

- Yn y Bont-faen, cynhaliwyd gig gyda Lleuwen Steffan, gyda chefnogaeth yr artist ifanc addawol, Erin Lancaster.




Trefnodd Menter Bro Morgannwg noson flynyddol y Fari Lwyd yn y Bont-faen, digwyddiad sydd bellach yn rhan annatod o galendr diwylliannol y dref. Arweiniodd disgyblion o Ysgol Bro Morgannwg y digwyddiad a chanodd ysgol gynradd leol, gan ddangos sut mae traddodiadau Cymreig yn cael eu trosglwyddo'n fyw i genhedlaeth iau.

Ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, trefnodd Menter Bro Morgannwg ddigwyddiad cymunedol mawr yng Ngerddi Dyffryn, gan groesawu teuluoedd o bob rhan o'r Fro. Roedd y diwrnod yn cynnwys perfformiadau gan fandiau a cherddorion o Gymru, gweithgareddau i'r teulu a chyfleoedd i ddathlu diwylliant Cymru mewn lleoliad hyfryd. Daeth y digwyddiad yn fan cyfarfod i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd, gan atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder a pherthyn.




Cynhaliwyd gigs yn y Memo ac yn Ysgol Bro Morgannwg i bobl ifanc. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddisgyblion brofi cerddoriaeth fyw drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chael blas ar drefnu digwyddiadau, hyrwyddo, a gweithio fel tîm. Roedd y gig yn llwyddiant ysgubol, gan ddenu cynulleidfa frwdfrydig a rhoi llwyfan i gerddorion lleol ifanc.

Hyrwyddwyd gwyliau cerddorol rhanbarthol eraill gan bartneriaid Fforwm y Fro, gan gynnwys Tafwyl, Ffilifest, a Gŵyl Tawe. Cydweithiodd Mentrau Iaith Ranbarthol i hyrwyddo cyfres o gigs ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd fel rhan o ŵyl gerddoriaeth Gymraeg Tafwyl.

| 2.9 | **Nodau: Cynyddu cyfleoedd ffitrwydd, hamdden a lles drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Gweithio gyda chontractwr rheoli hamdden y Cyngor, Legacy Leisure i gynyddu nifer y gwersi nofio a dosbarthiadau ffitrwydd sydd ar gael yn Gymraeg ym mhob canolfan hamdden.<br><br>Cydweithio â chymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Cysylltu â'r Bwrdd Iechyd o ran ffitrwydd fel adferiad.<br><br>Archwilio'r ymyriadau chwaraeon sy'n cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Ieuenctid drwy gyfleoedd dysgu achrededig a modelau darparu dwyieithog a Chymraeg. | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu nifer y gwersi nofio a dosbarthiadau ffitrwydd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac ysgolion Cymraeg. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaethau Hamdden) mewn partneriaeth â: Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); yr Urdd; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; Menter Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld |

**Diweddariad**

Cynigiodd y Gwasanaeth Ieuenctid rai ymyriadau yn seiliedig ar chwaraeon drwy fodel cyflwyno dwyieithog/cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyfleoedd dysgu achrededig.

Darparodd yr Urdd nifer o weithgareddau chwaraeon a hamdden Cymraeg mewn ysgolion a darpariaeth ieuenctid.

